**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 17 Gorffennaf 2002 |
| **Amser:** | 2.00pm tan 5.00pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## ADOLYGIAD O DRAFNIDIAETH GYMUNEDOL
## ADRODDIAD Y GWEINIDOG DROS YR AMGYLCHEDD

### Diben

1.1 Adrodd ar ganlyniad yr Adolygiad o Drafnidiaeth Gymunedol.

### Cefndir

2.1 Mae Fforwm Trafnidiaeth Cymru wedi cynnal adolygiad o drafnidiaeth gymunedol, a thrwy hynny mae wedi gweithredu un o argymhellion Adolygiad Polisi Trafnidiaeth Gymunedol y Pwyllgor hwn. Defnyddiwyd diffiniad eang iawn o drafnidiaeth at y diben hwn, a oedd yn cynnwys yr holl gludiant teithwyr heblaw am y prif wasanaethau bysiau a threnau.

### Yr Adolygiad

3.1 Cynhaliwyd archwiliad o drafnidiaeth gymunedol Cymru adeg Hydref 2001. Dyma'r prif gasgliadau:

- Prin fod trafnidiaeth gymunedol wedi datblygu o gwbl yng Nghymru;
- Yn gyffredinol, nid yw awdurdodau lleol yn ymwneud â'r mater;
- Nid yw trafnidiaeth gymunedol yn cael ei hystyried fel rhan o'r system drafnidiaeth gyhoeddus;
- Mae'r cynlluniau wedi eu dosbarthu'n anghyfartal ledled Cymru;
- Mae yna ddiffyg integreiddio ar draws y sectorau (trafnidiaeth leol, addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd).

3.2 Cynhaliwyd seminarau yn y Gogledd, y Canolbarth a'r De ym mis Tachwedd 2001 i drafod canfyddiadau'r archwiliad â'r prif grwpiau, a gweld sut allwn wireddu potensial trafnidiaeth gymunedol Cymru. Hefyd, cynhaliwyd ymgynghoriad trwy'r post ym mis Rhagfyr 2001.

3.3 Mae Crynodeb Gweithredol o'r Adroddiad ar yr Adolygiad o Drafnidiaeth Gymunedol wedi ei amgau yn **ATODIAD 1**. Mae'n rhoi braslun o brif ganlyniadau'r archwiliad ac yn nodi'r argymhellion fel ag y maent berthnasol i'r prif gyrff perthnasol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru (Y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth, GIG Cymru, Polisi Cymdeithasol, Addysg a Hyfforddiant);
- Awdurdodau Lleol;
- Ymddiriedolaethau'r GIG;
- y sector Trafnidiaeth Gymunedol;
- y sector Gwirfoddol.

3.4 Gellid crynhoi'r argymhellion fel a ganlyn:

- Datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r 'angen' am drafnidiaeth gymunedol yn seiliedig ar fframwaith sy'n berthnasol i gynhwysiant cymdeithasol.

  a. Datblygu/cydlynu cymunedau trwy ddarparu trafnidiaeth addas ar gyfer cyrff cymunedol eraill, yn bennaf mewn ardaloedd trefol;
  b. Mynd i'r afael â mannau ynysig, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, ond gan gynnwys ystadau trefol neu is-drefol penodol hefyd;
  c. Darparu trafnidiaeth i bobl sydd ag anawsterau symud.

- Codi proffil Trafnidiaeth Gymunedol (trwy Gynlluniau Trafnidiaeth Lleol a Strategaethau Bysus);
- Sicrhau cyllid tymor hir;
- Datblygu arbenigedd yn yr awdurdodau lleol;
- Gwella integreiddio a chydlynu (trafnidiaeth leol, tacsis, gwasanaethau cymdeithasol, addysg ac iechyd);
- Ymestyn y cynllun teithio consesiynol i gynnwys trafnidiaeth gymunedol;
- Ymestyn yr ad-daliad toll tanwydd i gynnwys trafnidiaeth gymunedol;
- Cynnal adolygiad o gludiant diargyfwng i ysbytai, clinigau a mannau gofal sylfaenol.

**Cynllun Gweithredu**

4.1 Paratodd yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth Gynllun Gweithredu i roi argymhellion yr Adolygiad ar waith. Cafodd hwn ei drafod yn Fforwm Trafnidiaeth Cymru ar 24 Mehefin ac fe'i cymeradwywyd. Cewch ei weld yn **ATODIAD 2**. Mae'n cyflwyno rhaglen o gamau i'w cymryd er mwyn sicrhau bod trafnidiaeth gymunedol yn cael ei datblygu i'r eithaf yng Nghymru.

4.2 Mae'r adroddiad yn dadlau y dylai trafnidiaeth gymunedol gael ei lleoli'n lleol ac y dylid ei datblygu i ddiwallu anghenion lleol. Serch hynny mae rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hollbwysig. Mae'i rôl yn cynnwys:

- Gosod gweledigaeth glir ar gyfer trafnidiaeth gymunedol;
- Darparu trefn gyllido gadarn;
- Darparu fframwaith polisi cydlynol ar draws meysydd polisi, sydd yn meithrin agwedd integredig a chydlynol tuag at drafnidiaeth;
- Sicrhau bod y drefn reoliadol yn cefnogi trafnidiaeth gymunedol.

4.3 Rhaid i drafnidiaeth gymunedol gael ei datblygu ar lefel leol. Felly, yn bennaf, cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw asesu anghenion mynediad a thrafnidiaeth, ac mae'r WLGA yn cefnogi'r casgliadau cyffredinol. Rôl yr awdurdodau lleol, mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol, yw hwyluso a meithrin y gwaith o ddatblygu trafnidiaeth gymunedol i gwrdd â'r angen hwn.

4.4 **Mae'r Cynllun Gweithredu'n cynnwys y camau allweddol a ganlyn**:

- Cynnal y Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol fel y brif ffordd o **ariannu** trafnidiaeth gyhoeddus a chymunedol;
- Gofyn i'r awdurdodau lleol baratoi **Strategaeth Drafnidiaeth Gymunedol** fel rhan o'u Strategaethau Rhanbarthol ar gyfer Trafnidiaeth Gyhoeddus sydd i'w cyflwyno ym mis Ebrill 2003;
- Comisiynu **Canllaw Arfer Gorau** mewn trafnidiaeth gymunedol ar gyfer yr awdurdodau lleol, a dosbarthu canllawiau ar bennu 'angen';
- Sicrhau bod **hyfforddiant** priodol ar gael ar lefel leol;
- Sicrhau bod **gwybodaeth o safon uchel am drafnidiaeth gymunedol** ar gael trwy'r holl ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys *traveline;*
- Annog yr awdurdodau lleol i wella'r modd y mae trafnidiaeth leol, gan gynnwys tacsis, gwasanaethau cymdeithasol, cludiant i'r ysgol a'r ysbyty, yn cael eu **cydlynu a'u hintegreiddio**;
- Ymestyn yr **ad-daliad toll tanwydd** i gynnwys y sector trafnidiaeth gymunedol;
- Ymchwilio i weld pa mor ymarferol yw ymestyn y **consesiynau teithio** i gynnwys trafnidiaeth gymunedol;
- Adolygu'r trefniadau ar gyfer darparu **cludiant i ysbytai.**

**Y Camau Nesaf**

5.1 O gofio'r nifer helaeth o argymhellion, bydd yn rhaid blaenoriaethu'r camau i'w cymryd a chytuno ar strwythur â'r grwpiau perthnasol ar gyfer eu gweithredu dros y tymor hir. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi a bydd yr ymgynghorwyr yn cynnal cynadleddau â'r grwpiau allweddol yn yr hydref i esbonio a thrafod y casgliadau a'r argymhellion. Cyn bo hir bydd yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth yn cyhoeddi canllawiau i'r awdurdodau lleol ar gyfer cynnwys trafnidiaeth gymunedol yn eu Strategaethau Rhanbarthol ar gyfer Trafnidiaeth Gyhoeddus, sy'n cael eu paratoi ar hyn o bryd. Roedd paratoi'r rhain yn un o argymhellion adolygiad y Pwyllgor o drafnidiaeth gyhoeddus.

5.2 Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal â'r WLGA ynghylch datblygu ffyrdd o sicrhau bod arfer da yn cael ei ledaenu a bod trafnidiaeth gymunedol yn cael ei datblygu fel rhan ganolog o drafnidiaeth gyhoeddus gyffredin. Gellid gwneud hyn ar y cyd â grwpiau o'r sectorau Addysg, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a hefyd y Gymdeithas Drafnidiaeth Gymunedol a'r Sector Gwirfoddol.

**Cydymffurfio â Goblygiadau Ariannol a Gweithdrefnau'r Cynulliad**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi'n benodol o'r adroddiad a'r cynllun gweithredu. Bydd goblygiadau o ran adnoddau yn codi o ddatblygu trafnidiaeth gymunedol yn y tymor hir, a bydd yn rhaid mynd i'r afael â'r rhain ar amser priodol.

**Gweithredu**

6.2 Gwahoddir y Pwyllgor i gyflwyno sylwadau ar yr adroddiad a'r blaenoriaethau o ran gweithredu y gellid eu cynnwys nghanllawiau'r awdurdodau lleol er mwyn iddynt eu gweithredu yn y tymor byr. Gwahoddir sylwadau hefyd ar ddatblygu trafnidiaeth gymunedol yn y tymor hir.

**Pwynt Cyswllt**
Denzil Jones, Yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth, Est 6322.